Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales

Mai 2023

Croeso i e-Fwletin Cymru Iach ar Waith

Mae'r e-fwletin misol yn darparu diweddariadau rheolaidd gan dîm Cymru Iach ar Waith, canllawiau Covid-19, newyddion ynghylch iechyd a llesiant yn y gweithle yn ogystal â dolenni i ymgyrchoedd a digwyddiadau sydd ar ddod.

Mae croeso i chi rannu hwn gyda'ch cydweithwyr a'ch rhwydweithiau.

Cliciwch yma i **gofrestru ar gyfer e-fwletinau misol Cymru Iach ar Waith ac i weld y rhifynnau blaenorol**.

Cymru Iach ar Waith: Adolygiad o'r Flwyddyn

Yn e-fwletin y mis hwn, rydym yn myfyrio ar ein cyflawniadau ar y cyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth edrych i'r dyfodol, gall cyflogwyr ddisgwyl gweld datblygiad pellach yn ein hasedau digidol, ynghyd â mwy o wybodaeth a chyfeirio at adnoddau ar draws ystod eang o bynciau.

Diolch,
Tîm Cymru Iach ar Waith

Podlediadau: "Lles Ariannol" a "Chynaliadwyedd Amgylcheddol"

Lansiwyd dau bodlediad arall yn y gyfres CIW: ''**Lles Ariannol**'' ac ''**Iechyd y Blaned: Cyflogwyr yn Gweithredu ar Gynaliadwyedd Amgylcheddol**''. Mae'r podlediadau hyn yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i gyflogwyr i helpu i gadw gweithlu Cymru yn iach ac yn y gwaith.

Tudalennau Gwe Newydd ar "Iechyd a Llesiant Meddwl" ac "Yr Argyfwng Costau Byw"

Lansiwyd tudalennau gwe newydd ar "**Iechyd Meddwl a Llesiant**" ac "**Yr Argyfwng Costau Byw**", gan gasglu'r wybodaeth a'r dystiolaeth fwyaf diweddar, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gall cyflogwyr weithredu, a chyfeirio at adnoddau a gwasanaethau am ragor o gefnogaeth.

Gwaith Teg ar gyfer Iechyd, Llesiant a Thegwch

Gwaith teg yw lle mae gweithwyr "yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu" (**Gwaith Teg Cymru, Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg 2019**).

Cynhyrchwyd ystod o **wybodaeth ac adnoddau gwaith teg** ar gyfer asiantaethau lleol a rhanbarthol gan CIW i helpu cyflogwyr i ddeall y camau y gallant eu cymryd i gynyddu cyfranogiad yn hyn.

Offeryn Arolwg Ar-lein i Gyflogwyr

Mae offeryn arolwg ar-lein CIW yn cynorthwyo cyflogwyr i archwilio pob agwedd ar eu polisïau a'u harferion iechyd a llesiant presennol yn y gwaith. Trwy gwblhau'r arolwg, gall cyflogwyr nodi'r hyn sy'n mynd yn dda a meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu.

Mae'r offeryn wedi'i dreialu gyda sefydliadau dethol, a byddwn yn ei gyflwyno'n raddol yn ddiweddarach eleni ac yn sicrhau ei fod ar gael i bob cyflogwr yng Nghymru.

Astudiaethau Achos Cyflogwyr

Fe wnaethom barhau â'n cyfres o astudiaethau achos cyflogwyr gydag un yn edrych yn fanwl ar y gwaith rhagorol y mae **Cartrefi Melin** wedi'i wneud ar ofalu am iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol ei weithlu.

Fe wnaethom hefyd gynhyrchu **adroddiad** yn crynhoi'r themâu allweddol ac enghreifftiau o arferion da a amlygwyd gan y ceisiadau a dderbyniwyd gan 55 o gyflogwyr ar gyfer ein Digwyddiad Canmoliaeth COVID-19 CIW a gynhaliwyd ddiwedd 2021.

Gwiriad Statws Uwch

Mewn ymateb i atal gwobrau llawn CIW yn ystod y pandemig, creodd tîm CIW broses **Gwiriad Statws Uwch** i adolygu arferion iechyd a llesiant cyflogwyr sy'n dal gwobrau a'u galluogi i ymestyn cyfnod eu gwobrau.

Fe wnaethom barhau i roi'r broses dyfarnu interim hon ar waith yn ystod 2022/23, wrth ailwampio'r model CIW, ac yn ystod y cyfnod hwnnw cwblhaodd 111 o gyflogwyr wiriad Statws Uwch yn llwyddiannus (yn cynnwys dyfarnu 57 Safon Iechyd Gorfforaethol a 54 Gwobr Iechyd y Gweithle Bach).

Cymru Iach Ar Waith

Unsubscribe communications.team@wales.nhs.uk

Update Profile |Constant Contact Data Notice

Sent byworkplacehealth@communications.wales.nhs.ukpowered by

Try email marketing for free today!